**PWYLLGOR CEFNOGI A DATBLYGU AELODAU**

**21 Hydref 2020**

Yn bresennol: Mrs J James (Cadeirydd)
Cynghorydd D Clements, Cynghorydd K Doolin, Mrs S Hoss, Cynghorydd M James a'r Cynghorydd P Kidney.

(Cyfarfod Rhithiol: 2.45pm – 3.20pm)

**1. Ymddiheuriadau am Absenoldeb**
Derbyniwyd ymddiheuriad am fod yn absennol oddi wrth Dr R Plummer, Cynghorydd A Wilcox a'r Cynghorydd M Williams.

**2. Datgan Buddiannau**
Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

**3. Cofnodion**
Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 29ain o Orffennaf 2020 i'w cadarnhau a'u dilysu.

**PENDERFYNWYD** cadarnhau a dilysu cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 29ain o Orffennaf 2020.

**4. Materion yn codi o'r Cofnodion**
Cynllun Hyfforddiant Datblygu Aelodau (Cofnod 6)
Roedd y trydydd paragraff ar dudalen pedwar yn gofyn am i ddiweddariad gael ei gyflwyno gerbron y cyfarfod nesaf ar y canran o'r Aelodau oedd wedi cwblhau eu Hadolygiad Datblygu Personol, a dywedwyd bod y canran hwn yn 55.6%. Ychwanegodd y Cadeirydd y byddai'n annog yr Aelodau hynny nad oedd eto wedi cwblhau eu hadolygiad i wneud hynny, gan nodi ei bod o'r farn y byddai Aelodau'r Pwyllgor yn fwy tebygol o gael eu cyfweld yn ystod yr asesiad ar gyfer Siarter Uwch.

Dywedodd y Rheolwr Gwasanaethau Gweinyddol a Democrataidd ei bod wedi cael gair gyda Sarah Titcombe yn y WLGA, fel y gofynnwyd yn y pedwerydd paragraff ar yr un dudalen, a ddywedodd wrthi bod Asesiadau Siarter yn cael eu gwneud ar hyn o bryd yn rhithiol, a phob dogfen yn cael eu cyflwyno yn electronig.

Yn olaf, dywedwyd bod y Cynllun Hyfforddiant wedi'i fabwysiadu yng nghyfarfod mis Medi o'r Awdurdod Parc Cenedlaethol, a bod y cynllun yn cynnwys y sesiynau ychwanegol o hyfforddiant a glustnodwyd yn y cyfarfod blaenorol.

**NODWYD.**

## 5. Siarter Cymru ar gyfer Cefnogi a Datblygu Aelodau

Atgoffwyd yr Aelodau bod y ddogfen ar y meini prawf oedd ynghlwm wrth yr adroddiad wedi'i hystyried mewn cyfarfodydd blaenorol o'r Pwyllgor, a bod y ddogfen yn nodi'r gwaith oedd yr Awdurdod eisoes wedi'i wneud ac yn clustnodi'r hyn oedd angen ei wneud cyn y gellid cyflwyno cais am y Siarter Uwch.

Diolchodd y Rheolwr Gwasanaethau Gweinyddol a Democrataidd i'r Cadeirydd am ei chymorth gyda'r gwaith parhaus o ddiwygio'r ddogfen, a thynnodd sylw'r Aelodau at y golofn derfynol yn y tabl oedd yn nodi'r gwaith ychwanegol oedd angen ei gyflawni.

Roedd maen prawf 3 yn ei gwneud yn ofynnol bod pob Aelod wedi derbyn hyfforddiant ar Gynllun yr Awdurdod o Ddirprwyo. Byddai cyfarfod yn cael ei drefnu rhwng y swyddogion perthnasol i drafod fformat yr hyfforddiant, gyda'r bwriad o gynnal sesiwn hyfforddiant yn dilyn cyfarfod o'r Awdurdod Parc Cenedlaethol neu'r Pwyllgor Rheoli Datblygu cyn diwedd 2020. Roedd un Aelod wedi codi'r mater gyda'r Cadeirydd cyn y cyfarfod y gallai'r hyfforddiant hwn geisio atgyfnerthu rôl yr Aelodau yn strategol ac o ran cwestiynu yn erbyn rôl weithredol y Prif Weithredwr.

Roedd maen prawf 3 yn ei gwneud yn ofynnol bod y rhaglen o gyfleoedd datblygu yn cael ei chyhoeddi ymlaen llaw. Nawr bod y cynllun hyfforddiant wedi'i gytuno, byddai amserlen yn cael ei llunio yn ôl yr adegau y byddai darparwyr yr hyfforddiant ar gael. Y gobaith oedd y gellid cyflawni'r mwyafrif o'r sesiynau yn rhithiol neu ar-lein yn sgîl y cyfyngiadau ar hyn o bryd.

Roedd maen prawf B4 yn ymwneud â chyflwyno gwybodaeth i ddarpar Aelodau ac i Aelodau newydd am eu rolau a'u cyfrifoldebau, a dywedwyd y byddai'r ddogfen wybodaeth gyfredol yn cael ei diwygio a'i diweddaru cyn yr etholiadau llywodraeth leol yn 2022. Holodd un Aelod a fyddai'n werth ystyried gwneud unrhyw hyfforddiant yn orfodol fel y gellid cadw'r Statws Siarter. Cytunodd y Cadeirydd i drafod yr opsiynau ar y mater hwn gyda'r Rheolwr Gwasanaethau Gweinyddol a Democrataidd.

Roedd maen prawf B5 yn gofyn am i bob hyfforddiant gael ei werthuso, a chytunwyd mai llwyfan ar-lein megis Mwnci Arolwg fyddai'n fwyaf tebygol o gael ymateb. Awgrymwyd y byddai'r gweithdy ar Adferiad Gwyrdd a gynhaliwyd y bore hwnnw yn fan cychwyn da i gael adborth.

Dywedodd y Rheolwr Gwasanaethau Gweinyddol a Democrataidd bod y lefelau presenoldeb yn uchel, a phleser gan y Cadeirydd oedd nodi bod y lefelau yn uwch na'r targed. Roedd y lefelau hyn wedi'u cynnwys yn y maen prawf B6 yn sgîl y cais gan y Pwyllgor i fonitro presenoldeb. Nodwyd bod cynnal cyfarfodydd rhithiol wedi'i gwneud yn haws i'r Aelodau reoli eu

dyddiaduron prysur, ac roedd y lefelau uchel o bresenoldeb yn dyst i ymrwymiad yr Aelodau.

Roedd maen prawf B8 yn ymwneud â mentora, a dywedwyd bod y Pwyllgor fis Gorffennaf 2019 wedi cytuno i gynnal prosiect peilot ar gyfeillio. Barnwyd ei bod yn bryd gwerthuso'r peilot hwnnw cyn ymestyn y prosiect i gynnwys pob Aelod o'r Awdurdod. Cytunodd y Rheolwr Gwasanaethau Gweinyddol a Democrataidd i ddosbarthu ffurflen gwerthuso.

Dywedwyd mai'r bwriad yw cynnal arolwg o farn yr Aelodau am y trefniadau o gynnal cyfarfodydd, a'r cymorth a'r cyfleusterau a gynigir i'r Aelodau; roedd hyn wedi'i gwmpasu ym maen prawf C2 a D3, ond roedd angen diweddaru'r sylwadau yn D3 i nodi y byddai'r arolwg yn cael ei gynnal yn y flwyddyn ariannol gyfredol.

O ran maen prawf D2, dywedwyd bod sylwadau ychwanegol wedi'u cynnwys ynglŷn â'r oedi cyn sefydlu Mewnrwyd i'r Aelodau. Byddai'r swyddogion yn parhau i fynd â'r maen i'r wal ar y mater hwn.

O ran amserlen cyflwyno dogfennau i'w hasesu, cytunodd yr Aelodau y dylai hyn ddigwydd cyn diwedd 2020 os yn bosibl, a bod yr asesu yn cael ei wneud ddechrau 2021. Dymunodd y Cadeirydd gofnodi bod y Pwyllgor yn cefnogi ac yn frwd i lwyddo i gael y Siarter gan ddweud y byddai'n cydgysylltu â'r Rheolwr Gwasanaethau Gweinyddol a Democrataidd ynglŷn â chyflwyno'r dogfennau. Yn ogystal â'r dogfennau i'w cyflwyno fel tystiolaeth ar y meini prawf unigol, dywedodd y byddai'r Aseswyr yn dymuno cyfweld â'r Aelodau, ac y byddai'n sicrhau bod yr Aelodau yn cael eu briffio cyn i'r cyfweliadau ddigwydd.

Diolchodd yr Aelodau i'r swyddogion am eu gwaith yn paratoi'r ddogfen a hefyd am eu cefnogaeth barhaus yn enwedig o ran y newid i gynnal cyfarfodydd yn rhithiol. Hefyd awgrymwyd cynnal sesiynau hyfforddiant ar dwristiaeth / y sefydliad newydd Ymweld â Sir Benfro, ac ar dechnegau holi cwestiynau, a chytunwyd i ychwanegu'r materion hyn at y Cynllun Hyfforddiant.

**PENDERFYNWYD** nodi'r ddogfen ar y meini prawf a bod y Cadeirydd a'r Rheolwr Gwasanaethau Gweinyddol a Democrataidd yn parhau i fwrw ymlaen â'r camau a amlinellir yn y ddogfen gyda golwg ar wneud cais am y Siarter Uwch erbyn diwedd 2020.

| |
|---|
| Cadarnhawyd y cofnodion hyn yn y cyfarfod o'r Pwyllgor Cefnogi a Datblygu Aelodau a gynhaliwyd ar 10 Chwefror 2021 heb eu diwygio. |